# Cofnodi Gweld Afanc

Bydd yn Ddinesydd Wyddonydd am Afancod yng Nghymru

Ymddiriedolaethau Natur Cymru
Wildlife Trusts Wales

PROSIECT AFANCOD CYMRU
WELSH BEAVER PROJECT



Llun trwy garedigrwydd Ian Sargent

# Cynnwys


Byddwch yn Ymwybodol! ........ 3

Edrych! Afanc! Cyflwyniad ........ 4

Sut i Gofnodi Gweld Afanc ........ 5

Cam 1: Dewiswch eich Iaith ........ 5


Cam 2: Mewngofnodwch i'ch Cyfrif ORS ........ 6

Cam 3: Dewiswch Recordiau ........ 6

Cam 4: Dewiswch Prosiect Afancod Cymru ........ 7

Cam 5: Cwblhewch a cyflynwch y Ffurflen ........ 8

Adolygwch eich Adroddiad ........ 9

Afanc yn nofio

Llun trwy garedigrwydd Chris Robbins


Dewch yn ôl i'r Cynnwys unrhyw bryd trwy glicio yma ar unrhyw dudalen.

# Byddwch yn Ymwybodol!

Pan fyddwch yn chwilio am afancod, cofiwch y cyngor canlynol:

- Gwisgwch ddillad cynnes ac esgidiau caeedig synhwyrol. Cariwch ddillad gwrth-ddŵr (a dillad ychwanegol) oherwydd gall amodau newid yn gyflym hyd yn oed yn y misoedd cynhesach a sychach.
- Peidiwch â mynd yn agos i'r afancod a gwnewch yn siŵr eich bod yn eu harsylwi o bellter diogel rhag tarfu arnynt neu fywyd gwyllt arall.
- Cadwch yn dawel a peidiwch â symud yn sydyn.
- Bydd cŵn yn ei gwneud hi'n anoddach gweld afanc. Os yw eich cŵn yn ymuno â chi, gwnewch yn siŵr i'w cadw ar dennyn bob amser.
- Ewch â ffôn, ysbienddrych, a camera fel y gallwch dynnu lluniau a rhoi gwybod am yr afancod a welwyd.
- Mae afancod yn arbennig o weithgar adeg codiad yr haul a machlud haul felly ceisiwch fod allan yn gynnar neu'n hwyr.
- Mae diwedd y gwanwyn a'r haf yn gyfnodau delfrydol i weld afanc oherwydd cyfnodau mwy o olau dydd.



**Pâr o afancod**

Llun trwy garedigrwydd Chris Robbins



Afanc yn bwydo ar gangen helyg.

Llun trwy garedigrwydd Chris Robbins

## Edrych! Afanc!
## Cyflwyniad

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (ar ran yr Ymddiriedolaethau Natur yng Nghymru) yn gweithio i ailsefydlu afancod yng Nghymru. Roedd afancod Ewrasiaidd yn arfer bod ledled y wlad ond cawsant eu hela hyd at ddiffodiant tua 400-500 mlynedd yn ôl. Mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn cefnogi dychweliad afancod i'r gwyllt oherwydd gallant ddarparu llawer o fanteision amgylcheddol a fydd yn gwella ein hecosystemau dŵr croyw yn sylweddol. Fodd bynnag, mae afancod angen eich help i ailsefydlu yn y gwyllt. Rydym yn cynnal cynllun dinesydd wyddonydd er mwyn i chi allu chwarae rhan hanfodol wrth gofnodi weld afancod ac arwyddion maes. Darllenwch ymlaen i glywed sut i adnabod afanc.

Mae rhagor o wybodaeth am afancod ar dudalen wê Prosiect Afancod Cymru.

# Sut i Gofnodi Gweld Afanc

Wrth chwilio am afancod, cofiwch y gwybodaeth a rennir yn ein canllaw o’r enw Edrych! Afanc!


Mae cofnodi weld afanc yn syml. Ewch i’r cyfeiriad gwê hwn o unrhyw ddyfais sy’n gysylltiedig â’r rhyngrwyd:

**https://cofnod-ors.lerc.online/**

cofnod
Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru
North Wales Environmental Information Service

LOCAL ENVIRONMENTAL RECORDS CENTRES **WALES**
CANOLFANNAU COFNODION AMGYLCHEDDOL LLEOL **CYMRU**


Darperir y porth data hwn gan Cofnod a chaiff y data ei gasglu gyda Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol Cymru.




Bydd cynllun y dudalen wê ychydig yn wahanol os ydych chi’n defnyddio ffôn, tabled, neu gyfrifiadur ond mae’r un camau’n yn gweithio beth bynnag fo’ch dyfais.


## Cam 1: Dewiswch eich Iaith

Wrth ymweld â’r wefan y tro cyntaf, fe welwch y sgrîn hon. Dewiswch eich iaith (Cymraeg neu Saesneg).




# Cam 2: Mewngofnodwch i'ch Cyfrif ORS

Bydd angen cyfrif System Gofnodi Cofnod Ar-lein (ORS) arnoch i gyflwyno gweld afancod. Mewngofnodwch os oes gennych gyfrif yn barod. Fel arall, cliciwch ar "Cofrestru"




Cliciwch yma i gofrestru. Bydd y system yn cadarnhau eich cyfeiriad e-bost felly gwiriwch eich ffolder sbam os oes angen.

# Cam 3: Dewiswch Recordiau





Cliciwch yma i ffeindio'r ffurflen gweld afancod.

Unwaith y byddwch wedi mewngofnodi, cliciwch ar "Mewnforio Cofnodion" i roi'r manylion o weld afancod/arwyddion afancod.

# Cam 4: Dewiswch Prosiect Afancod Cymru

Cliciwch ar “Prosiect Afancod Cymru”.





Cliciwch yma i cofnodi weld afanc/ arwyddion afancod.

# Cam 5: Cwblhewch a cyflynwch y Ffurflen

Llenwch gymaint o feysydd â phosib.

Cofiwch fod yn rhaid llenwi meysydd hefo seren (*).

Sicrhewch fod y lleoliad / swyddogaeth GPS wedi'i alluogi ar eich ffôn neu tabled. Os oes angen, sicrhewch hefyd eich bod yn addasu gosodiadau'r camera ar eich dyfais fel bod data lleoliad yn cael ei ychwanegu at eich lluniau. (Dyma'r gosodiad diofyn ar y mwyafrif o ddyfeisiau.)




**Cofiwch gynnwys ffotograffau afanc/arwyddion afanc os yn bosibl.**

**Rhowch yr union leoliad. Os cliciwch ar y botwm "Map" hwn yn gyntaf, gallwch glicio ar y symbol hwn i uwchlwytho'ch union leoliad trwy GPS:**



**Fel arall, dewiswch eich lleoliad â llaw gan ddefnyddio'r map.**

**Defnyddiwch y maes "Nodiadau" hwn i ddarparu gwybodaeth ynghylch a welsoch chi porthdy, argae, arwyddion bwydo, neu unrhyw beth arall a allai fod o ddiddordeb.**


**Cliciwch y maes "Cyflwyno Cofnod" pan fyddwch wedi nodi holl fanylion eich adroddiad.**

# Adolygwch eich Adroddiad

Cliciwch ar "Gweld Recordiau" i weld y data rydych chi wedi'i gyflwyno.

Os oes angen i chi ychwanegu neu newid unrhyw beth, cliciwch ar y symbol gêr fel y nodir.

Peidiwch â phoeni os nad oes gennych chi fynediad i'r rhyngrwyd pan welwch afancod neu arwyddion afancod. Gwnewch nodiadau all-lein a thynnwch ffotograffau (gyda data lleoliad wedi'i fewnosod). Yna gallwch chi lenwi'r ffurflen a llwytho'ch ffotograffau pan fydd gennych gysylltiad rhyngrwyd. Cwblhewch gymaint o wybodaeth â phosibl. Hyd yn oed cyfeiriadau grid bras o leoliad eich adroddiad.




**Cliciwch yma i weld eich cofnodion.**

**Cliciwch yma i newid eich cofnodion.**

**Diolch am gefnogi'r Prosiect Afancod Cymru!**

Ymddiriedolaeth Natur
**Gogledd Cymru**
**North Wales**
Wildlife Trust

Cynhyrchwyd yr adnodd hwn gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ar ran yr Ymddiriedolaethau Natur yng Nghymru.

Ymddiriedolaethau Natur
**Cymru**
Wildlife Trusts
**Wales**

Ymddiriedolaeth Natur
**De a Gorllewin Cymru**
Wildlife Trust of
**South & West Wales**

Ymddiriedolaeth
Natur
**Gwent**
Wildlife Trust

Ymddiriedolaeth Natur
**Maldwyn**
**Montgomeryshire**
Wildlife Trust

Ymddiriedolaeth Natur
**Sir Faesyfed**
**Radnorshire**
Wildlife Trust

**Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:**
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
**European Agricultural Fund for Rural Development:**
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae'r prosiect hwn wedi derbyn cyllid drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014–2020 – Cynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

PROSIECT
**AFANCOD**
**CYMRU**

**WELSH**
**BEAVER**
PROJECT

Afanc yn nofio



Llun trwy garedigrwydd Chris Robbins

Ymddiriedolaeth Natur
**Gogledd Cymru**
**North Wales**
Wildlife Trust

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, ynghyd ag aelodau, gwirfoddolwyr a chyda chefnogaeth rhwydwaith cynyddol o filoedd o bobl mewn cymunedau amrywiol, wedi ymrwymo i ddod â bywyd gwyllt yn ôl, grymuso pobl i weithredu dros natur, a chreu cymdeithas lle mae natur o bwys.

Rydym yn rhan o rwydwaith cenedlaethol o 46 o Ymddiriedolaethau Natur ar draws y DU. Rydym yn ymgyrchu i warchod bywyd gwyllt a chynefinoedd yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn chwarae rhan ganolog mewn cadwraeth natur – ac rydym am i chi fod yn rhan ohono!

| | |
|---|---|
| EMAIL | **info@northwaleswildlifetrust.org.uk** |
| PHONE | **01248 351541** |
| FACEBOOK | **northwaleswildlifetrust** |
| WEBSITE | **northwaleswildlifetrust.org.uk** |
| TWITTER | **@North_Wales_WT** |
| INSTAGRAM | **@northwaleswildlifetrust** |

North Wales Wildlife Trust (Ymddiriolaeth Natur Gogledd Cymru)
Garth Road (Heol Garth)
Bangor  LL57 2RT

Rhif Elusen Gofrestredig: 230772
Rhif Cwmni: 773995



© 2023  North Wales Wildlife Trust